

# Erthygl: Eich opsiynau ar ddiwedd blwyddyn 11

## Crynodeb

Mae'r erthygl hon yn trafod beth allwch ei wneud pan fyddwch yn gadael Blwyddyn 11. Mae'n cynnig gwybodaeth am gymwysterau uwch, dilyn rhaglen hyfforddiant a chanfod gwaith. Mae cyngor hefyd ynghylch sut gallwch wneud y penderfyniad sydd orau i chi.

## Beth ydy'r dewisiadau?

Pan fyddwch yn dechrau edrych ar beth allwch chi ei wneud ar ôl gorffen Blwyddyn 11, fe all yr holl beth ymddangos yn ddryswch pur. Y prif ddewisiadau fydd gennych pan fyddwch yn gadael yr ysgol ydy:

- dal ymlaen i astudio am gymwysterau
- gwneud hyfforddiant, fydd yn arwain at gymhwyster cysylltiedig â gwaith. Fe all hyn gael ei wneud ar brentisiaeth
- canfod gwaith (sy'n rhaid cynnwys hyfforddiant)

Pan feddylwch am y peth, mae gennych brofiad o wneud penderfyniadau ynglyn â'ch dyfodol yn barod - pan benderfynoch chi pa TGAU i'w cymryd, er enghraifft. Y pethau a feddylwch amdanynt bryd hynny - beth wnaethoch fwynhau eu dysgu, beth oeddech chi'n dda arnynt, beth oeddech chi'n ei feddwl oedd yn ddefnyddiol - ydy'r pethau y mae angen i chi feddwl amdanynt nawr.

## Parhau â'ch addysg

Os ydych am barhau i astudio, fe allech chi o bosib aros ymlaen yn eich ysgol, neu fe allech ystyried mynd i goleg chweched dosbarth neu goleg addysg bellach. Fe all fod gan y colegau hyn ddewis eangach o bynciau na'ch ysgol, felly fe fyddai'n werth holi o gwmpas.

Ymysg y cyrsiau y gallech eu gwneud mae Safon UG, Lefelau A, TGAUau, a chymwysterau galwedigaethol BTEC (Edexcel), OCR neu City & Guilds.

Os ydych yn ystyried mynd i brifysgol, bydd angen Lefelau A neu gymwysterau lefel 3 hafal arnoch. Mae rhai ysgolion a cholegau yn cynnig Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol fel llwybr arall i addysg uwch.

## Cael peth hyfforddiant

Mae colegau, darparwyr hyfforddiant (cwmnïau sy'n hyfforddi pobl ar ran cwmnïau eraill) a chyflogwyr i gyd yn darparu hyfforddiant. Y prif wahaniaeth ydy os gwnewch eich hyfforddiant drwy fynd i goleg, ni chewch eich talu, ond os hyfforddych gyda chyflogwr, fel arfer fe gewch.

Fe all bod peth gorgyffwrdd, oherwydd bydd rhai cyflogwyr yn eich anfon i goleg am ddiwrnod astudio neu gwrs cyfnod a rhai colegau yn eich helpu i ganfod lleoliadau profiad gwaith. Dylai cynlluniau da arwain at gymhwyster sy'n cael ei dderbyn unrhyw le yn y wlad.

Os ydych yn chwilio am swydd gyda hyfforddiant (yn hytrach na mynd i goleg), gallwch wneud cais am Brentisiaeth. Mae'r rhain ar gael dros ystod eang iawn o feysydd, gan gynnwys peirianneg, trin gwallt, amaethyddiaeth, gwasanaethu cwsmeriaid, marchnata ac iechyd - cefnogaeth gofal iechyd clinigol.

I gael gwybodaeth am Brentisiaethau, edrychwch ar y wefan Prentisiaethau a gwefannau Gyrfa Cymru o dan 'Rhagor o Wybodaeth'.

## Cael swydd

Gall gadael ysgol i gael swydd fod yn syniad deniadol iawn, gan ei fod yn cynnig cyfle i ennill 'arian go iawn'. Ond cofiwch ei bod hi'n bosib na fydd beth sy'n ymddangos fel cyflog da nawr llawn cystal mewn ychydig flynyddoedd.

Yn Lloegr, pe byddech chi'n penderfynu mynd i weithio mae'n rhaid i chi hefyd weithio tuag at gymhwyster achrededig.

## Penderfynu ar y dewis gorau

Yn gyntaf, bydd angen i chi feddwl amdanoch chi'ch hunan - eich cryfderau a'ch gwendidau a beth y gobeithiwch ei gyflawni yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae gofyn i chi ystyried sut ganlyniadau TGAU yr ydych yn debyg o'u cael, os ydych yn fedrus mewn meysydd academiaidd neu ymarferol (neu gymysgedd o'r ddau) a faint, neu cyn lleied, o hyfforddiant yr ydych am ei wneud cyn neu yn ystod gwaith.

Yna, bydd angen i chi gael mwy o wybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael yn eich ardal. Gallwch ganfod mwy drwy eich Athro Gyrfaedd neu'ch Cynghorydd Gyrfa yn yr ysgol.

Yn aml bydd gan golegau a darparwyr hyfforddiant ddiwrnodau agored lle cewch gip o gwmpas y lle a chanfod mwy am y cyrsiau. Mae hyn yn gyfle da i gael golwg ar y lle ac efallai siarad â myfyrwyr sy'n astudio neu'n hyfforddi yno'n barod. Dylai fod gan eich ysgol wybodaeth am y diwrnodau agored hyn.

## Gwybodaeth Bellach

### Cysylltiadau

- **Apprenticeships**  
National Apprenticeship Service (NAS)  
Ffôn 0800 015 0400  
E-bost [nationalhelpdesk@findapprenticeship.service.gov.uk](mailto:nationalhelpdesk@findapprenticeship.service.gov.uk)  
Gwefan [www.apprenticeships.org.uk](http://www.apprenticeships.org.uk)
- **What Next After School? All you need to know about work, travel and study**  
Author: Elizabeth Holmes Publisher: Kogan Page
- **Choosing Your A Levels**  
Author: Cerys Evans Publisher: Trotman  
Gwefan [www.careerpilot.org.uk/information/a-levels/choosing-your-a-levels-what-you-need-to-consider](http://www.careerpilot.org.uk/information/a-levels/choosing-your-a-levels-what-you-need-to-consider)
- **Careers Wales (Provides careers information, advice and guidance)**  
Gwefan [www.careerswales.com](http://www.careerswales.com)
- **Welsh Government Education & Skills**  
Gwefan [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)